**PWYLLGOR RHANBARTH Y DE-DDWYRAIN**
**STRATEGAETH DATBLYGU ECONOMAIDD AR GYFER DE-DDWYRAIN CYMRU**

1. Mae’r papur amgaeedig, a baratowyd gan Fforwm Economaidd De-ddwyrain Cymru, yn ystyried datblygiad strategaeth datblygu economaidd ar gyfer rhanbarth y De-ddwyrain.

2. Gwahoddir yr aelodau i ystyried y papur hwn.

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau Medi 1999

# FFORWM ECONOMAIDD DE-DDWYRAIN CYMRU

## ADRODDIAD AR GYFER

## PWYLLGOR RHANBARTH Y DE-DDWYRAIN CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

## 1 HYDREF 1999

## LOGO’R FFORWM

**CYNNWYS**

**1** **Fforwm Economaidd De-ddwyrain Cymru**

**2** **Gweledigaeth ar gyfer De-ddwyrain Cymru**

**3** **Swyddogaeth y De-ddwyrain yn Nyfodol Cymru**

**4** **Swyddogaeth Mewnfuddsoddi o safbwynt Datblygu Economaidd**

**5** **Datblygu Strategaeth Datblygu Economaidd ar gyfer De-ddwyrain Cymru**

**ATODIAD UN**

**ATODIAD DAU**

## 1 Fforwm Economaidd De-ddwyrain Cymru

1.1 Cafodd Fforwm Economaidd De-ddwyrain Cymru ei ffurfio ym 1997 ac mae'n cynnwys cynrychiolaeth o'r cyrff a'r mudiadau canlynol:

- Y 10 awdurdod lleol yn ardal De-ddwyrain Cymru;
- Awdurdod Datblygu Cymru;
- TEC De-ddwyrain Cymru;
- CBI;
- TUC Cymru;
- Bwrdd Croeso Cymru;
- Cynghorau Cyllido Addysg Bellach ac Uwch;
- Y Gwasanaeth Cyflogi;

1.2 Cafodd y Fforwm ei sefydlu gyda'r bwriad o sicrhau bod yr holl sefydliadau ac asiantaethau sy'n rhan o ddatblygu strategol yn Ne-Ddwyrain Cymru yn gweithio mewn partneriaeth a thuag at yr un nod cytûn cyffredin.

1.3 Dros y flwyddyn ddiwethaf y flaenoriaeth ar gyfer y Fforwm oedd amlinellu ei amcanion a'i weledigaeth gyffredinol ar gyfer y rhanbarth a dechrau paratoi Strategaeth Datblygu Economaidd sy'n cael ei chefnogi a'i hategu gan yr holl asiantaethau a sefydliadau partner allweddol.

## 2 Gweledigaeth ar gyfer De-ddwyrain Cymru

2.1 Mae'r Fforwm wedi mabwysiadu Datganiad Gweledigaeth sy'n ymrwymo'r holl sefydliadau partner i weithio tuag at raglen gyffrous ac uchelgeisiol er mwyn datblygu'r rhanbarth yn economaidd.

2.2 Mae'r Weledigaeth yn mynd ati'n arbennig i geisio:

***"sicrhau bod De-ddwyrain Cymru yn ennill ei lle ymhlith chwarter uchaf y rhanbarthau mwyaf ffyniannus yn Ewrop;"***

creu ***"…economi â gwerth ychwanegol uwch amrywiol a dynamig, gyda mwy o swyddi o ansawdd uchel, sy'n gallu creu datblygiad cynaliadwy ohono'i hun a hynny mewn economi sy'n fwyfwy byd-eang"*** a

***"…lleihau'r lefel uchel o anweithgarwch economaidd a diweithdra yn sylweddol"*** yn y rhanbarth.

2.3 Ceir copi o'r Datganiad Gweledigaeth yn Atodiad Un o'r adroddiad hwn.

## 3 Swyddogaeth y De-ddwyrain yn Nyfodol Cymru

3.1 Er mai dim ond 14% o arwynebedd Cymru yw De-ddwyrain Cymru, mae 48% o’r boblogaeth yn byw yno ac mae’r rhanbarth yn gyfrifol am oddeutu 50% o’r GDP. Os yw Cymru am wynebu’r sialensiau a amlinellwyd yn y Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol, bydd raid i De-ddwyrain Cymru yn arbennig sicrhau twf sylweddol, a hynny ar gyfradd llawer uwch na’r blynyddoedd diwethaf.

3.2 Yn draddodiadol, mae llawer o dwf economaidd Cymru wedi bod yn Ne-ddwyrain Cymru. Er bod y buddsoddiadau mwy wedi eu denu i goridor yr M4 o amgylch Caerdydd, Casnewydd a Phen-y-bont ar Ogwr, gwelwyd datblygiad sylweddol yn y Cymoedd. Mae’n hawdd deall pam fod pwysau cynyddol wedi bod i rannu buddsoddiadau’r dyfodol mor gytbwys â phosibl ledled Cymru, gyda phwyslais arbennig ar yr angen i berswadio mewnfuddsoddwyr **i leoli’n bennaf y tu allan i goridor yr M4**, y tu hwnt i glystyrau traddodiadol gweithgaredd economaidd.

3.3 Mae’r Fforwm yn pryderu bod hyn wedi golygu nad oes digon o gydnabyddiaeth wedi’i roi i swyddogaeth allweddol De-ddwyrain Cymru i ddarparu "peiriant" twf uchel i adfywio Cymru yn economaidd drwyddi draw. Yn arbennig, mae perygl y gallai’r polisi hwn lesteirio twf yn Ne-ddwyrain Cymru, a gallai hynny niweidio datblygiad Cymru yn ei chyfanrwydd.

3.4 Mae hefyd yn pryderu na chafodd y problemau difrifol sy’n parhau i fodoli yn Ne-ddwyrain Cymru eu cydnabod yn ddigonol, er gwaethaf llwyddiant digamsyniol dros y blynyddoedd diwethaf. Er enghraifft, dim ond 64% o gyfartaledd y DU yw GDP y pen yn ardal NUTS3 Canol y Cymoedd ar hyn o bryd ac mae dros hanner y rhai sy’n hawlio lwfans ceisio gwaith yng Nghymru yn byw yn Ne-ddwyrain Cymru.

3.5 O ganlyniad cytunodd y Fforwm yn ddiweddar i baratoi adroddiad ar y rhan y bydd angen i’r rhanbarth hwn ei chwarae yn llwyddiant Cymru yn ei chyfanrwydd. Ceir copi o’r adroddiad a luniwyd gan is-grwp o’r Fforwm yn Atodiad Dau o’r ddogfen hon. Nid yw'r adroddiad hwn wedi cael ei gyflwyno i'r Fforwm na'i gytuno ganddo. Caiff ei drafod yng nghyfarfod y Fforwm ar 18 Hydref 1999.

## 4. Swyddogaeth Mewnfuddsoddi o safbwynt Datblygu Economaidd

4.1 Mae’r adroddiad yn delio hefyd â mater mewnfuddsoddiad yn y strategaeth gyffredinol ar gyfer datblygu economaidd yng Nghymru. Unwaith eto, mae’r Fforwm yn bryderus bod gwrthdaro diangen wedi dod i’r amlwg mewn dadleuon diweddar ynghylch yr angen i hybu mentrau cynhenid lleol yn hytrach na mewnfuddsoddi. Ym marn y Fforwm nid perthynas "naill ai-neu" yw hon, ac mewn gwirionedd byddai gallu denu mewnfuddsoddiad sylweddol yn cynorthwyo llwyddiant strategaethau i hybu dawn entrepreneuraidd a menter leol yng Nghymru. Byddai buddsoddiad o’r fath nid yn unig yn creu swyddi uniongyrchol (ac yn gymorth i ddiweddaru ac uwchraddio medrau) ond byddai hefyd yn creu galw am nwyddau a gwasanaethau gan fusnesau lleol eraill. Byddai hyn yn symbylu gweithgaredd economaidd a

mentrau lleol.

**5 Datblygu Strategaeth Datblygu Economaidd ar gyfer De-ddwyrain Cymru**

5.1 Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r Fforwm wedi bod yn datblygu syniadau am nifer o'r llinynnau allweddol fyddai'n addas ar gyfer strategaeth datblygu economaidd ar gyfer y rhanbarth. Gwnaed hyn drwy gyfrwng nifer o weithgorau a aeth ati i ddwyn yr asiantaethau a'r sefydliadau allweddol o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat ynghyd.

5.2 Canolbwyntiodd y gwaith hwn ar bum thema, sef:

- **cymorth ar gyfer busnesau cynhenid;**
- **marchnata a hyrwyddo De-ddwyrain Cymru ymhlith mewnfuddsoddwyr;**
- **strategaeth ar gyfer y rhanbarth;**
- **y tir a'r eiddo sydd ar gael;**
- **medrau a hyfforddiant.**

5.3 Dros y misoedd nesaf mae'r Fforwm yn bwriadu mynd ati i grynhoi canfyddiadau pob un o'r gweithgorau mewn strategaeth gynhwysfawr, gyda'r bwriad o sicrhau mai De-ddwyrain Cymru yw un o'r rhanbarthau mwyaf llwyddiannus a chyflymaf ei dwf yn Ewrop yn y degawd nesaf. **Yna bydd y strategaeth ddrafft hon yn destun dadl a thrafodaeth eang, a byddai'r Fforwm yn croesawu'n fawr unrhyw sylwadau gan aelodau Pwyllgor Rhanbarth y De-ddwyrain y Cynulliad Cenedlaethol ar sut y gellid mynd ati i gynnal yr ymgynghori.**

5.4 Mae'n debyg y bydd y strategaeth hon, yn seiliedig ar y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud, am gynnwys yr elfennau allweddol canlynol:

**Cefnogi Busnesau Cynhenid**

- Ymdrechion sylweddol i gynyddu'r nifer o fusnesau newydd sy'n cael eu sefydlu yn y rhanbarth, gan greu diwylliant sy'n wirioneddol entrepreneuraidd;
- Bod Cyswllt Busnes yn darparu cymorth sydd wedi'i gyfeirio'n bwrpasol at gynorthwyo busnesau sydd eisoes yn bodoli i wireddu eu potensial yn llawn;
- Cymorth busnes sy'n delio'n benodol â chwmnïau mewn sectorau allweddol megis marchnata, cyllid, sgiliau rheoli, a'r defnydd o wybodaeth a thechnoleg cyfathrebu i elwa ar fanteision e-fasnach;
- Mentrau sydd wedi'u cydlynu er mwyn targedu sectorau penodol e.e. entrepreneurs benywaidd a busnesau cymunedol;
- Cynyddu'r arian ar gyfer gwasanaethau cynnal busnes rheng flaen, a sicrhau eu bod yn fwy effeithiol, a datblygu ymhellach y cysylltiadau rhwng diwydiant ac addysg.

**Marchnata a hyrwyddo**

- Ymgyrch farchnata uchel ei phroffil sydd wedi'i chydlynu er mwyn datblygu De-dwyrain Cymru fel un o'r lleoliadau mwyaf blaenllaw yn Ewrop ar gyfer mewnfuddsoddi;
- Cryfhau'r bartneriaeth rhwng Awdurdod Datblygu Cymru ac asiantaethau eraill megis awdurdodau lleol a'r TEC o ran cydweithio â'r mewnfuddsoddwyr presennol a rhai'r dyfodol.

**Twristiaeth**

- Cynyddu'r ymwybyddiaeth o gryfder ac amrywiaeth twristiaeth yn Ne-ddwyrain Cymru.
- Datblygu pecynnau creadigol sy'n canolbwyntio ar y prif atyniadau ymwelwyr, rhai pecynnau hamdden a busnes cynadleddau/cymhelliant
- Buddsoddi mewn llety, seilwaith, siopau, adloniant a chyfleusterau ciniawa ansawdd uchel, yn ogystal â chanolbwyntio ar wasanaethau o ansawdd uchel drwy reoli cyrchfannau, gwella gofal cwsmer a datblygu cynaliadwy.

**Tir ac Eiddo**

- Darparu dros 1000 o erwau ar gyfer datblygu busnesau newydd mewn cyfres o leoliadau allweddol o fewn y rhanbarth;
- Darparu eiddo hapfasnachol yn benodol ar gyfer marchnadoedd a lleoliadau twf penodol, trwy gyfuniad o adeiladau sector cyhoeddus a sector preifat
- Datblygu cronfa ddata tir ac eiddo gyffredin ar gyfer y rhanbarth y gellid ei defnyddio ar gyfer marchnata wrth ddelio â darpar fuddsoddwyr, ac fel modd o fonitro a dadansoddi tueddiadau'r farchnad a chyfleoedd;

**Medrau a hyfforddiant**

Cytuno ar gynllun gweithredu sy'n seiliedig ar alw a sefydlu Fforwm Medrau sy'n cynnwys sefydliadau o'r sector preifat a'r sector cyhoeddus. Prif nodweddion y cynllun fydd:-

- Pwyslais ar newid y diwylliant dysgu yn hytrach na bod y cwmnïau yn gwneud newidiadau
- Hyrwyddo marchnad lafur hyblyg
- Gwella dysgu sgiliau allweddol mewn ysgolion a mwy o gydlynu datblygiad a chyfarwyddyd ôl 16
- Cynnal cydlyniad rhanbarthol
- Mynd i'r afael ag anfantais drwy arfogi pobl â'r sgiliau sylfaenol sy'n angenrheidiol ar gyfer cael eu cyflogi neu eu hailgyflogi
- Defnyddio technolegau newydd er mwyn hyrwyddo datblygu sgiliau
- Monitro'r cynnydd tuag at gyflawni'r targedau

# ATODIAD UN

# Gweledigaeth ar gyfer De-ddwyrain Cymru

## GWELEDIGAETH STRATEGOL AR GYFER ECONOMI DE-DDWYRAIN CYMRU

## Y BWRIAD STRATEGOL

Ein bwriad strategol yw:

Cyfrannu tuag at wella ansawdd bywydau pobl De Cymru yn sylweddol ac yn barhaus drwy:

- Sicrhau bod De-ddwyrain Cymru yn ennill ei le ymhlith chwarter uchaf y rhanbarthau mwyaf ffyniannus yn Ewrop.
- Gwella'n sylweddol y cyfleoedd sy'n bodoli ar gyfer unigolion, pob rhan o'r gymuned (yn ddaearyddol ac yn gymdeithasol), yn ogystal â'r holl sectorau diwydiannol i fod yn rhan o ac i elwa o'r broses o gynhyrchu cyfoeth.

## CEFNDIR ECONOMI DE-DDWYRAIN CYMRU

Mae hunaniaeth bresennol De-ddwyrain Cymru yn deillio o'r chwyldro diwydiannol cyntaf a oedd yn seiliedig ar hen ddiwydiannau trwm glo a dur. Mae'r grymoedd hyn yn dal yn bennaf gyfrifol am ddosbarthiad presennol y boblogaeth a thraddodiadau parhaus y cymunedau hynny. Cafodd y Chwyldro Diwydiannol hefyd effaith ar y modd yr oedd gwahanol rannau'r is-ranbarth yn ymwneud â'i gilydd. Roedd glo yn cael ei gloddio yn y Cymoedd, ei fasnachu ar yr Arfordir (a oedd hefyd yn cynnig gwasanaethau a llywodraeth lleol) gyda'r ardaloedd gwledig yn y dwyrain yn cyflenwi peth o'r bwyd ar gyfer trigolion y rhanbarth. Er hynny, mae'r newidiadau mewn diwydiant wedi newid y berthynas hon yn sylweddol. Mae dosbarthiad a natur y swyddi wedi newid ac mae hyn wedi caniatáu i rai cymunedau ddatblygu ac i dyfu'n annibynnol ar y lleill. Mae'r ffaith bod raid i ddiwydiannau newydd gael eu lleoli mewn mannau penodol wedi dwysau tensiynau wrth i'r gwahaniaethau mewn twf ledu'r bwlch rhwng lles economaidd pobl yng ngwahanol rannau'r rhanbarth (yn seiliedig ar gyfraddau gweithgaredd, diweithdra a GDP y pen). Rhaid i'n strategaeth ni fynd ati i leddfu'r tensiynau hyn heb danseilio'r cyfleoedd sy'n bodoli ar gyfer twf.

## Y WELEDIGAETH

Yn Ne-ddwyrain Cymru byddwn:

**(1)**… wedi creu economi â gwerth ychwanegol uwch amrywiol a dynamig, gyda mwy o swyddi o ansawdd uchel, sy'n gallu creu datblygiad cynaliadwy ohono'i hun, a hynny mewn economi byd-eang sy'n fwy fwy cystadleuol

**(2)**… byddwn wedi lleihau'r lefel uchel o anweithgarwch economaidd a diweithdra yn sylweddol

**(3)**… mae dysgu gydol oes yn un o wirioneddau bywyd i bob un o'n dinasyddion. Mae gan Gymru weithlu hyblyg, sydd wedi'i addysgu'n dda ac sy'n meddu ar fedrau lluosog all wynebu sialensiau economi byd-eang; byddwn wedi cynyddu'r sylfaen medrau ar draws yr holl ystod oedran, lefelau a safleoedd o fewn y farchnad waith

**(4)**… mae'r ysbryd entrepreneuraidd yn ffynnu. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn y nifer sy'n hunangyflogedig ac yn y nifer o gwmnïau newydd sy'n cael eu sefydlu. Cwmnïau cynhenid cryf yw sylfaen ein heconomi ac adlewyrchir agweddau a dyheadau pobl De-ddwyrain Cymru gan ysbryd o fenter

**(5)**… mae hinsawdd groesawgar busnes yn denu mewnfuddsoddiad ac ailfuddsoddiad newydd. Caiff yr ardal ei marchnata'n weithgar mewn dull cydlynol yn arbennig yn y sectorau twf allweddol gan ganolbwyntio ar swyddi gwerth ychwanegol uwch; caiff effaith economaidd leol y buddsoddiad hwn ei gynyddu trwy gyfrwng cadwyn gref o gyflenwyr yn yr ardal.

**(6)**… mae ansawdd uchel yr amgylchedd naturiol a'r ardaloedd adeiledig, yn yr ardaloedd gwledig a threfol yn gwneud y rhanbarth yn lle deniadol i fyw a gweithio ac i fuddsoddi; mae'r seilwaith technegol a ffisegol yn ateb gofynion cystadleuol diwydiant ac mae'n cynnal cymunedau ffyniannus sy'n gryf yn gymdeithasol yn y dinasoedd, y trefi, y pentrefi ac mewn aneddiadau eraill

**(7)**… mae'r flaenoriaeth uchel a ddangoswyd gennym tuag at ddieithrwch cymdeithasol a chyfle cyfartal wedi golygu bod gan bawb yn ein cymunedau agwedd gadarnhaol tuag at fod yn aelodau cyflawn o gymdeithas, y gweithlu a'r agenda creu gwaith. Fel rhanbarth yr ydym yn llawer mwy uchelgeisiol ac nid yw'r 'hinsawdd o ddibyniaeth' bellach yn bodoli yng Nghymunedau De Cymru

## TARGEDAU ERBYN 2010

- Cynyddu cyfartaledd GDP y pen yn rhanbarth y Fforwm fel ei fod yn cyfateb i 95% o gyfartaledd y DU erbyn 2010, (sef tua 86% o gyfartaledd y DU ar hyn o bryd) a sicrhau nad yw ffigur GDP yr un Awdurdod Unedol sengl yn llai na 75% o gyfartaledd y DU (yr isaf yw NUTS 3 Canol y Cymoedd gyda 64%) (Ffynhonnell: cyfrifiadau'r WDA)
- Cynyddu'r Cyfraddau Gweithgarwch Economaidd i Gyfartaledd y DU (y Cyfraddau Gweithgarwch ar hyn o bryd yn yr ardal yw 73.1% o'u cymharu â 73.4% yng Nghymru a 79.2% ym Mhrydain) (Ffynhonnell: ONS/NOMIS)
- Cynyddu cyfartaledd enillion yr ardal, sef 90% o gyfartaledd Prydain ar hyn o bryd, i oddeutu 95% erbyn 2010 (Ffynhonnell: cyfrifiadau NES/WDA )
- Sicrhau bod cyfartaledd y bobl o oedran gweithio sydd wedi ennill cymhwyster NVQ lefel 3 neu gymhwyster cyfatebol yn yr holl ardaloedd yn cyrraedd cyfartaledd Cymru o 40% (hen ardal Morgannwg Ganol sydd â'r ffigur isaf sef 34%, 37% yw cyfartaledd Gwent a 50% yw cyfartaledd De Morgannwg) (Ffynhonnell : Welsh Digest of Local Area Statistics 1999)
- Er mwyn cynyddu'r canran o blant yn eu blwyddyn sy'n gadael yr ysgol gyda o leiaf 5 TGAU (graddau A-C) o 39% (cynnydd ar gyfartaledd)i'r cyfartaledd Cymreig o 44% (Ffynhonnell: Welsh Digest of Local Area Statistics 1999)
- Sicrhau bod yr ardal yn gweld twf cadarnhaol yn nifer y swyddi yn y cyfnod hyd at 2010 a hynny ar raddfa sy'n cyfateb i, neu'n uwch na'r cynnydd o 3% a ragwelir ar gyfer Cymru.(Ffynhonnell: Cambridge Econometrics)

## EGWYDDORION GWEITHREDOL

Dylid seilio'r strategaeth hon ar yr egwyddorion gweithredol canlynol:

(1) Bod partneriaeth gwirioneddol o fewn y sector cyhoeddus a rhwng cyrff y sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yn cael ei chydnabod fel y prif gyfrwng ar gyfer gwireddu'r weledigaeth strategol.

(2) Rydym yn mesur ein perfformiad yn erbyn rhanbarthau cystadleuol eraill yn y DU a thros y môr yn gyson. Rhaid inni sicrhau ein bod yn parhau i edrych tuag allan, ac yn mynd ati i geisio

sicrhau ein bod yn rheng flaen datblygiadau. Byddwn wastad yn adnabod arfer da ac yn barod i ddysgu ohono yn gyson.

(3) Bydd "ansawdd" yn rhan annatod o’n holl weithgareddau.

(4) Byddwn yn manteisio i’r eithaf ar bob ffynhonnell ariannu allanol, yn arbennig arian o Ewrop ac o’r loteri.

(5) Byddwn yn adeiladu ar egwyddor datganoli, lle bydd penderfyniadau a gweithrediadau yn cael eu gwneud ar y lefel leol fwyaf addas.

(6) Bydd polisïau yn ddatganiadau sy’n mynegi bwriad ac ymrwymiad yn glir

(7) Bydd y strategaethau a’r polisïau a fabwysiedir yn ystyried amrywiaeth sectoraidd a daearyddol y rhanbarth.

(8) Rhaid monitro a mesur y targedau yn gyson. Y nod yw mesur perfformiad economi’r ardal yn gyffredinol a sicrhau bod y polisïau a fabwysiedir yn cael yr effaith a ddymunir.

Bydd y cynnydd a wneir o ran gwireddu’r targedau hyn yn cael ei fonitro yn flynyddol gan feincnodi perfformiad economi De-ddwyrain Cymru drwy ddefnyddio cyfuniad o ddata swyddogol a data arolwg yn ôl yr angen.

Bydd effaith y rhaglen a’r polisïau yn cael eu gwerthuso bob tair blynedd, yn 2003 ac yn 2006 er mwyn asesu eu heffeithiolrwydd (h.y. gwneud y pethau cywir) a’u heffeithlonrwydd (h.y. gwneud pethau’n iawn).

**NODYN:**

Mae targed GDP De-ddwyrain Cymru yn seiliedig ar y targedau a bennwyd ar gyfer Cymru gyfan. Os bydd y rheini yn newid bydd angen i’n targedau adlewyrchu hynny.

**ATODIAD DAU**

# Rôl De-ddwyrain Cymru

***PAPUR BRIFFIO***

Comisiynwyd y papur hwn gan Fforwm Economaidd De-ddwyrain Cymru, a’i ysgrifennu gan aelodau o’i Grp Gweledigaeth/Strategaeth.

**1. Cefndir**

Mae Fforwm Economaidd De-ddwyrain Cymru yn bryderus na fydd yr amodau gorau i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i sicrhau twf yng Nghymru a Rhanbarth De-ddwyrain Cymru yn cael eu darparu os nad yw polisi'n seiliedig ar:

- ymgyrch i ddarbwyllo buddsoddiad newydd **i leoli'n bennaf y tu hwnt i goridorau'r M4/A55**; a
- rhoi mwy a mwy o bwyslais ar ddatblygu busnes cynhenid ar draul parhau i ddenu mewnfuddsoddiad

Mae'r papur briffio hwn yn mynd i'r afael â'r materion hyn ac yn ystyried y rôl y gall economi De-ddwyrain Cymru ei chwarae o safbwynt creu cyfoeth a sicrhau ffyniant ym mhob cwr o Gymru.

## 2.0 Yr Her i Gymru

### *2.1 Rhagarweiniad*

**"Y broblem sylfaenol yw'r bwlch parhaus a sylweddol rhwng lefelau ffyniant yng Nghymru o'u cymharu â'r DU a gweddill Ewrop. Dros y 25 mlynedd ddiwethaf, ar y cyfan, mae economi Cymru wedi dilyn yr un trywydd ag economi'r DU, ond o sylfaen isel iawn, ac mae'r bwlch wedi tyfu yn ddiweddar. Bellach dim ond 82% o gyfartaledd yr UE yw GDP y pen yng Nghymru".**

**(Strategaeth Datblygu Genedlaethol – Dogfen Ymgynghori)**

Mae angen i Gymru gyrraedd targedau twf uchelgeisiol os yw i gau'r bwlch ffyniant gyda gweddill y DU. Yn adroddiad Panel Economeg Awdurdod Datblygu Cymru *Towards an Economic Analysyis of Wales,* er mwyn sicrhau bod GDP y pen yng Nghymru yn cyrraedd 90% o gyfartaledd y DU erbyn 2010, dywedwyd bod angen sicrhau twf o 4.4% y flwyddyn. Mae hyn yn cymharu â rhagolwg *Cambridge Econometrics* ar gyfer y DU yn ystod yr un cyfnod, sef 2.7% y flwyddyn. Os ydym i gyrraedd y targedau uchelgeisiol hyn, mae ar Gymru angen yr adnoddau a'r polisïau i gynyddu twf economaidd yn sylweddol yn y tymor byr a'r tymor canol.

### *2.2 Pwysigrwydd De-ddwyrain Cymru i Economi Cymru*

Mae economi De-ddwyrain Cymru'n chwarae rhan allweddol o safbwynt creu cyfoeth yng Nghymru. Mae'r rhanbarth yn ymestyn dros 14% o arwynebedd tir Cymru, mae 48% o'i phoblogaeth yn byw yno ac mae'n gyfrifol am oddeutu 50% o'r GDP.

Er enghraifft, pe bai ffigurau GDP De-ddwyrain Cymru'n cael eu tynnu o'r cyfanswm ar gyfer Cymru, byddai GDP Cymru y pen yn syrthio o 83.1% i 80.8% o gyfartaledd y DU (data ONS 1996).

Pwysleisir pwysigrwydd sylfaenol economi De-ddwyrain Cymru i ddyfodol economi Cymru ymhellach yn y rhagolygon cyflogaeth a ddarparwyd gan BSL ar gyfer Astudiaeth Sgiliau Dyfodol Cymru. Daethant i'r casgliad canlynol:

**"Rhagwelir y bydd y sector gwasanaethau preifat... yn parhau'n weddol fach, a'i gyfraddau twf yn is nag yn y DU. Dyma un o'r prif sialensau sy'n wynebu economi Cymru yn y dyfodol."**

**(Sgiliau Dyfodol Cymru)**

Y sector gwasanaethau preifat yw'r 'crëwr swyddi' sy'n tyfu gyflymaf yn economi'r DU. De-ddwyrain Cymru

yw'n rhanbarth fwyaf cystadleuol a rhagwelir y bydd yn darparu 71% o gyfanswm y swyddi yng Nghymru yn y sector hwn. Mae angen adeiladu ar y cryfder cynyddol hwn, ac mae angen i'r sector diwydiannol berfformio'n well fyth, os ydym am gau'r bwlch rhwng economi Cymru a gweddill y DU.

***2.3 Y Sialensau sy'n Wynebu De-ddwyrain Cymru***

Yn Rhanbarth De-ddwyrain Cymru mae:

- dros 50% o'r holl bobl sy'n chwilio am waith yng Nghymru.
- y lefelau isaf o weithgarwch economaidd ymhlith y gweithlu o blith holl ranbarthau Cymru
- y lefel uchaf o amddifadedd cymdeithasol yn 25% o'i wardiau

Mae angen mynd ati o ddifrif i fynd i'r afael â'r sialensau hyn.

Os yw De-ddwyrain Cymru i helpu i weddnewid economi Cymru, yna mae angen iddi weddnewid ei heconomi ei hun hefyd. Crynhowyd y sialensau sy'n ei hwynebu yn hyn o beth mewn adroddiad diweddar gan PriceWaterhouseCoopers:

- *"Mae'n debygol y gwelir lefelau gweithgarwch is yn y sectorau traddodiadol, sef Gwasanaethau Ariannol, Aerofod, Dillad ac Ynni, sydd wedi'u clystyru yn Ne-ddwyrain Cymru, a bydd hyn yn effeithio ar greu/cadw swyddi a buddsoddiad yn y rhanbarth yn y dyfodol.*
- *Disgwylir y bydd y clystyrau mawr o ffatrïoedd cydrannau cerbydau, prosesu bwyd, nwyddau traul, cydrannau electronig ac isgydosod yn Ne Ddwyrain Cymru yn parhau'n sefydlog o safbwynt buddsoddiad a chreu/diogelu gweithgarwch, ond bydd lleoliadau cystadleuol isel eu pris yn Ewrop yn rhoi pwysau arnynt*
- *Mae'r sectorau lle rhagwelir twf yn tueddu i fod mewn gweithgareddau gweithgynhyrchu gwerth ychwanegol uwch, nad oes llawer ohonynt yn Ne Ddwyrain Cymru, ac mewn Canolfannau Galwadau, sydd wedi'u clystyru ar hyd coridor yr M4 rhwng Caerdydd a Chasnewydd.*
- *Mae'n debygol y bydd De-ddwyrain Cymru'n cael ei gwasgu fwyfwy rhwng rhanbarthau yn Ewrop a'r DU sy'n gallu cynnig lleoliadau o safon ar gyfer y sectorau gwasanaethau a gweithgynhyrchu datblygedig, a hynny am bris isel."*

  (PriceWaterHouseCooper: "Review of Marketing and Inward Investment Strategy 1991").

Serch hynny, mae gan yr ardal uchod nifer o gryfderau, gan gynnwys y sectorau diwydiannol allweddol a restrir uchod, ardal coridor yr M4, marchnadoedd sydd o fewn cyrraedd hwylus, prifddinas o fri rhyngwladol, sector gwasanaethau busnes sy'n prysur dyfu, a seilwaith academaidd cystadleuol. Dyma'r cryfderau y gellir eu defnyddio i godi proffil a GDP Cymru.

***2.4 Y Weledigaeth ar gyfer De-ddwyrain Cymru***

Mae Fforwm Economaidd De-ddwyrain Cymru wedi llunio Datganiad Gweledigaeth ddrafft lle nodir y nodau a'r amcanion y mae ei aelodau wedi ymrwymo i'w cyflawni. Dim ond yng nghyd-destun economi llwyddiannus yng Nghymru y gellir gwireddu'r weledigaeth hon. Mae'r bwriad strategol fel a ganlyn:

"sicrhau bod Dde-ddwyrain Cymru yn ennill ei lle ymhlith chwarter uchaf y rhanbarthau mwyaf ffyniannus yn Ewrop."

"gwella’n sylweddol y cyfleoedd sy’n bodoli ar gyfer unigolion, pob rhan o’r gymuned (yn ddaearyddol ac yn gymdeithasol), yn ogystal â’r holl sectorau diwydiannol, i fod yn rhan o’r broses o gynhyrchu cyfoeth, ac elwa ohoni."

Mae’r weledigaeth yn cynnwys sefydlu De-ddwyrain Cymru fel rhanbarth lle:

"byddwn wedi creu economi sydd â gwerth ychwanegol uwch amrywiol a dynamig, gyda mwy o swyddi o ansawdd uchel, sy’n gallu creu datblygiad cynaliadwy ohono’i hun, a hynny mewn economi sy’n fwyfwy byd-eang."

"byddwn wedi lleihau’r lefel uchel o anweithgarwch economaidd a diweithdra yn sylweddol."

Mae’n targedau’n cynnwys y canlynol:

Cynyddu cyfartaledd GDP y pen yn rhanbarth y Fforwm Economaidd fel ei fod yn cyfateb i 95% o gyfartaledd y DU erbyn 2010, (sef tua 86% o gyfartaledd y DU ar hyn o bryd) a sicrhau nad yw ffigur GDP unrhyw Awdurdod Unedol yn llai na 75% o gyfartaledd y DU (yr isaf yw ardal NUTS 3 Canol y Cymoedd, sef 64%)

*(Ffynhonnell: cyfrifiadau Awdurdod Datblygu Cymru)*

*Cynyddu’r Cyfraddau Gweithgarwch Economaidd i Gyfartaledd y DU (y Cyfraddau Gweithgarwch ar hyn o bryd yw 73.1% o’u cymharu â 73.4% yng Nghymru a 79.2% ym Mhrydain)*

*(Ffynhonnell: ONS/NOMIS*

*Cynyddu cyfartaledd enillion yr ardal, sef 90% o gyfartaledd Prydain ar hyn o bryd, i oddeutu 95% erbyn 2010*

*(Ffynhonnell: cyfrifiadau NES/WDA)*

## 3. Y Fframwaith Polisi – Y Cynulliad Cenedlaethol

### *3.1 Cyflwyniad*

Os yw economi De-ddwyrain Cymru i barhau i chwarae rhan flaenllaw o safbwynt creu cyfoeth ar gyfer Cymru gyfan, a helpu i brysuro datblygiad economi Cymru, mae angen i’r Cynulliad Cenedlaethol greu fframwaith polisi economaidd cefnogol. Mae nifer o agweddau ar y polisi hwnnw sydd y tu hwnt i derfynau’r ddogfen briffio hon. Serch hynny, dylai’r polisi ganolbwyntio ar greu cyfoeth, cydnabod pwysigrwydd mewnfuddsoddi ac ail-fuddsoddi, a rôl gyfegnïol ac ategol datblygiad cynhenid.

### *3.2 Creu Cyfoeth*

Canolbwyntiwyd yn fwy yn ddiweddar ar yr angen i ledaenu cyfoeth economaidd i bob cwr o Gymru. Dyma ddwy enghraifft:

- y newid i’r targedau strategol a bennwyd ar gyfer Awdurdod Datblygu Cymru o safbwynt canran y swyddi a grëir y tu allan i ardal coridor yr M4/A55. Gwelwyd cynnydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf o 20% i 50% ym 1998/99 a 55% ym 1999/2000 (er bod y targed diwethaf hwn yn seiliedig ar ardaloedd

NUTS 2).

- y targedau net cyfredol ar gyfer creu swyddi ychwanegol yn y Strategaeth Datblygu Genedlaethol ddrafft sydd am weld cynnydd o tua 6.0% mewn swyddi net yn ardal Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, a dim ond oddeutu 1.5% yn Nwyrain Cymru.

Mae'r targedau cyfredol o 6000 o swyddi net ar gyfer Dwyrain Cymru (1999-2002) yn y Strategaeth Datblygu Genedlaethol dipyn yn llai na'r cyfraniad y gall y rhanbarth hon, a rhan De-ddwyrain Cymru o'r rhanbarth honno, ei wneud o safbwynt sicrhau twf mewn cyflogaeth yng Nghymru. Dim ond cyfateb i'r tueddiadau presennol a ragwelir y mae'r targedau hyn (mae BSL 1999-2001 yn rhagweld cynnydd net o 5400 o swyddi newydd yng Ngorllewin Cymru).

Yr ydym yn cydnabod bod sicrhau bod cymaint o gyfoeth â phosibl yn cael ei greu, a'r cyfoeth hwnnw'n cael ei ddosbarthu mor eang â phosibl, yn amcanion pwysig, ac yr ydym yn bendant o blaid yr egwyddor o ledaenu ffyniant i bob cwr o Gymru. Serch hynny, cymaint yw'r sialens sy'n wynebu Cymru fel na allwn fforddio lledaenu ffyniant ar draws Cymru ar draul creu cyfoeth naill ai yng Nghymru neu ranbarth De-ddwyrain Cymru.

O'r herwydd, gellid dadlau o blaid pennu targedau newydd yn y Strategaeth Datblygu Genedlaethol, ac ar gyfer cyrff megis Awdurdod Datblygu Cymru, ar sail potensial pob rhanbarth ar ôl asesu ei hatyniad unigryw o safbwynt lleoliad ac arian, a'i hatyniadau eraill.

### *3.3 Buddsoddi*

Mae'n debyg mai'r ffordd fwyaf priodol i helpu i godi GDP yw bod busnesau newydd a busnesau sydd eisoes yn bodoli yn mynd ati i fuddsoddi. Mae penderfyniadau buddsoddi o'r fath gan y cwmnïau yn gymhleth, ac mae amryw ffactorau yn dylanwadu arnynt. Er y gall Awdurdod Datblygu Cymru, y Cynghorau Hyfforddiant a Menter, yr Awdurdodau Unedol a'r holl sefydliadau sydd â rhan mewn denu buddsoddiad chwarae'u rhan o safbwynt pwysleisio cryfder a nodweddion lleoliad penodol, mater i'r cwmni yw'r penderfyniad terfynol. Nid yw'n debygol y gellir cyfeirio buddsoddiad cynaliadwy i unrhyw leoliad daearyddol penodol. Mae angen i bolisi adlewyrchu'r realiti hwn. Yn y cyd-destun hwn, er enghraifft, nid rhwng Pen-y-bont ar Ogwr neu Lanelli/ Caerfyrddin, dyweder, y bydd y dewis, ond rhwng y lleoliad busnes gorau yng Nghymru, a Sbaen, dyweder. O'r herwydd, dylai strategaeth farchnata Awdurdod Cymru ar gyfer denu buddsoddiad ganolbwyntio ar ddenu buddsoddiad i Gymru, a sicrhau nad yw'n cael ei golli i ranbarthau eraill Ewrop yn yr amgylchedd cystadleuol sydd ohoni. Ar hyn o bryd, fel yr argymhellwyd yn adroddiad PriceWaterhouseCooper

> *"Blaenoriaeth isel a roddir i Dde-ddwyrain Cymru yn y strategaeth farchnata newydd hon (Awdurdod Datblygu Cymru)."(PriceWaterhouseCooper: "Review of Marketing and Investment Strategy - 1999").*

Mae angen newid y polisi hwn.

Mae angen adolygu'n gyson y buddsoddiad a ddenwyd gan Dde-ddwyrain Cymru a rhanbarthau eraill yn y gorffennol, a'i ail-gyfeirio, os yw i barhau'n gystadleuol. Nid oes lle i orffwys ar ein rhwyfau yn y byd cystadleuol hwn. Mae angen i'r rhanbarth a'i hadnoddau dynol fod yn gwbl gyfarwydd â'r dechnoleg, y cynnyrch a'r arferion diweddaraf. Mae'n bwysig bod y gymuned fusnes yn cael y cyfle i fasnachu gyda diwydiannau techoleg uwch blaenllaw, a bod y gweithlu'n cael eu hannog i ddysgu sgiliau newydd. Daw buddsoddiad newydd o'r math priodol â syniadau a dulliau cynhyrchu newydd yn ei sgil. Mae hyn yn holl bwysig os ydym am weld twf a ffyniant yn parhau yn Ne Ddwyrain Cymru.

Mae'n amlwg bod angen i'r Cynulliad Cenedlaethol a'i sefydliadau gael strategaeth mewnfuddsoddi sy'n

annog cwmnïau yn y sector gwasanaethau sy'n ychwanegu gwerth sylweddol, sy'n gysylltieidg â thechnoleg ac sy'n gyfnewidiadawy, ynghyd â phencadlysodd corfforaethol a gweithgareddau ymchwil a datblygiad yn Ne Ddwyrain Cymru, i fuddsoddi o'r newydd ac ail-fuddsoddi. Byddai hyn yn efelychu un llinyn pwysig o'r strategaeth a fu'n gymorth i brysuro datblygiad economi Iwerddon, sydd bellach yn hynod lwyddiannus a chystadleuol.

Bydd economi lwyddiannus yn Ne Ddwyrain Cymru yn gwneud cyfraniad o bwys, nid yn unig o safbwynt cyrraedd targedau GDP a thargedau swyddi ar draws Cymru, ond hefyd o safbwynt lleihau diweithdra a chyfraddau anweithgarwch, ac ar y cyd â pholisïau priodol, hyrwyddo cyfleoedd cyfartal. Nid yw'r effaith ehangach y gall mewnfoddsoddi ei sicrhau yn cael ei chydnabod yn llawn bob tro. Er enghraifft:

- daeth 60% o'r gweithwyr a recriwtiwyd o'r newydd ar gyfer *LG Electronics* o gymoedd De Cymru. Mae tystiolaeth ymchwil hefyd yn dangos bod llawer o'r bobl hyn wedi dod o gwmnïau a oedd eisoes yn bodoli. Mae'r cwmnïau hyn yn tueddu i recriwtio o blith pobl sy'n gadael yr ysgol, y di-waith, y bobl hynny sy'n economaidd anweithgar ac unigolion sydd heb fod yn gallu symud o gwmpas yn hawdd, ac yn cynnig cyfleoedd gwaith iddynt.
- mae 40% o drigolion ardal Awdurdod Unedol Caerffili, er enghraifft, yn gweithio y tu allan i ffiniau'r awdurdod unedol, naill ai yng Nghasnewydd neu yng Nghaerdydd
- mae'r ffaith bod mewnfuddsoddiad llwyddiannus wedi'i glystyru ar hyd coridor yr M4, yn y diwydiannau ceir ac electronig, wedi golygu bod nifer mawr o gwmnïau llai wedi'u lleoli yng Nghymoedd De Cymru.
- mae cyflogau gweithwyr mewn cwmnïau gweithgynhyrchu tramor yng Nghymru rhyw 22% yn uwch ar gyfartaledd nac mewn cwmnïau Prydeinig. Maent yn gwella'r effaith lluosi incwm ac yn helpu i gynnal yr economi leol yn Ne Ddwyrain Cymru a thu hwnt.
- mae'r sgiliau y mae ar gwmnïau sy'n fewnfuddsoddwyr eu hangen yn tueddu i fod yn sylweddol uwch nag ar gyfer cyflogwyr eraill yng Nghymru *(Anghenion Sgiliau'r Dyfodol 1999)*. Mae hyn yn gwella lefel gyffredinol y sgiliau yn y rhanbarth ac yn ei helpu i barhau'n gystadleuol yn y maes adnoddau pwysig hwn.

***3.4 Busnesau Cynhenid***

Bu cryn drafod yng Nghymru, ac yn sgil hynny mae rhai o'r farn y dylid rhoi mwy o bwyslais ar gynorthwyo'r sector busnesau cynhenid i dyfu ar draul denu buddsoddiad mewnol. Ni ddylid gorfod dewis rhwng y naill a'r llall. O safbwynt polisi ac adnoddau, dylid rhoi blaenoriaeth i greu economi fywiog, llawn menter, lle mae mewnfoddsoddiad sydd wedi'i dargedu wedi'i wreiddio yn yr economi honno trwy fentrau sy'n gysylltiedig â chadwyni cyflenwi, lle'r anogir B'BACH'au sy'n bodoli eisoes i ganolbwyntio o'r newydd ar farchnadoedd 'allforio', a lle canolbwyntir ar ddatblygu busnesau newydd yn y sector gwasanaethau sy'n ychwanegu gwerth uwch.

**4. I Gloi**

Felly, dylai strategaeth ddatblygu ar gyfer De-ddwyrain Cymru :

**(i)** Datgan yn gwbl glir mai'r prif amcan ledled Cymru yw sicrhau'r twf uchaf posibl mewn GDP.

**(ii)** Sicrhau bod twf yn cael ei ddosbarthu'n deg rhwng y rhanbarthau a'r ardaloedd NUTS 2, ond nid ar draul cyfyngu ar dwf mewn unrhyw ranbarth benodol. Dylid gwneud hyn trwy fuddsoddi er mwyn gwella'r cryfderau ymhellach, a mynd i'r afael â'r gwendidau ym mhob rhanbarth, nid trwy gyfyngu ar fuddsoddiad, na'i rwystro, mewn unrhyw ranbarth benodol e.e. De-ddwyrain Cymru.

**(iii)** Gosod targedau ar gyfer pob rhanbarth yn ogystal ag ardal NUTS 2. Byddem yn awgrymu y dylid gosod targed o 95% o gyfartaledd y DU ar gyfer GDP yn Ne Ddwyrain Cymru.

**(iv)**Pwysleisio pwysigrwydd strategaeth ddeublyg i annog mwy o fewnfuddsoddiad mewn sectorau wedi'u targedu, a chreu economi fywiog, llawn menter lle rhoddir llawer o gymorth i fusnesau cynhenid a mentrau sy'n gysylltiedig â chadwyni cyflewni. Mae angen strategaeth gytbwys, os ydym i lwyddo yn y tymor hir.

Os yw Cymru i ffynnu, mae angen datgloi a manteisio ar botensial ei holl ranbarthau ac ardaloedd. Yn y cyd-destun hwn, dylai rhanbarth De-ddwyrain Cymru wneud cyfraniad o bwys o safbwynt llwyddo i weddnewid economi Cymru.